

## PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

DYDD LLUN, 20 MAWRTH 2023

Yn  
bressenol: Cynghorydd Bridgeman (Cadeirydd),  
Y Cynghorwyr Ahmed, Boes, Davies, Ferguson-Thorne, Hopkins,  
Melbourne a/ac Moultrie

Aelodau Cyfetholedig: Bridgid Corr (Cynrychiolydd Rhiant-  
Lywodraethwr), Celeste Lewis (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr),  
Carol Cobert (Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru) a/ac  
Patricia Arlotte (Cynrychiolydd Gatholig Rufeinig)

### 54 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Elaine Simmons ac Emily Gao, Cynrychiolydd Cyngor Ieuencid Caerdydd.

Croesawodd y Cadeirydd ddau aelod newydd i'r Pwyllgor hefyd, y Cynghorwyr Saleh Ahmed a Jess Moultrie.

### 55 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

### 56 : DIWEDDARIAD Y GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID

Cafodd yr Aelodau ddiweddariad ar gynnydd o ran y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Ash Lister (yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol Plant), Deborah Driffield (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant) ac Angharad Thomas (Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid).

Gwahoddwyd y Cynghorydd Lister i wneud datganiad, lle nododd fod cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud yn y flwyddyn ers i Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ddychwelyd i archwilio'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid. Roedd y bwrdd bellach yn parhau i ganolbwyntio ar fesurau perfformiad a diweddarau'r staff ac roedd yn deall y garfan o bobl ifanc a oedd yn cael ei gefnogi gan y gwasanaeth. Roedd wedi mabwysiadu dull thematig newydd yn canolbwyntio ar ferched o fewn y system, pwyntiau pontio addysg allweddol a deall prosesau llys. Roedd yn gweithio mewn partneriaeth â chyrrff cyhoeddus eraill, yn enwedig addysg, iechyd a Heddlu De Cymru. Disgrifiwyd y strategaeth newydd fel strategaeth ragorol mewn adborth diweddar gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, a nodwyd hefyd fod angen i leisiau pobl ifanc fod wrth wraidd y strategaeth. Roedd Suzanne Scarlett wedi ymuno â'r bwrdd yn ddiweddar gyda ffocws ar y dull dinas sy'n dda i blant. Talodd deyrnged i'r staff a'r bwrdd a diolchodd i Graham Robb, a oedd yn rhoi'r gorau i'w rôl fel cadeirydd annibynnol ym mis Mai, a thynnodd sylw at fanteision y model hwn.

Diolchodd y Cadeirydd i Graham Robb hefyd.

Gwahoddwyd yr aelodau i ofyn cwestiynau ac i wneud sylwadau; mae'r drafodaeth wedi'i chrynhoi fel a ganlyn:

Gofynnodd yr aelodau am gynnydd y saith argymhelliad ar gyfer gwella yn adroddiad diwethaf yr arolygiaeth ym mis Awst. Roedd cynllun gweithredu llawn wedi'i ysgrifennu a'i gymeradwyo gan Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi, ac roedd fframwaith sicrhau ansawdd llawn ar waith, a fyddai'n cael ei fonitro'n fisol. Roedd cynnydd wedi'i wneud ar bob un o'r saith argymhelliad, yr oedd tri ohonynt yn ymwneud â'r bwrdd a phedwar ohonynt yn ymwneud â staff. Byddai'r arolygiad llawn nesaf mewn tair i bedair blynedd.

Gofynnodd yr aelodau a oedd digon o gyllid i ehangu'r gwasanaethau atal a gwyro pan barhaodd y grant Turnaround am ddwy flynedd yn unig. Roedd y grant hwn wedi eu galluogi i wella'r gwasanaeth atal, a dylai effaith gadarnhaol hyn fod yn glir o ran cyllid a geir yn y dyfodol.

Gofynnodd yr aelodau y cynnydd mewn cyfraddau aildroseddu yn yr ail chwarter. Eglurodd Angharad Thomas fod y cynnydd hwn oherwydd bod llai o blant yn dod trwy gylch gorchwyl statudol cyfiawnder ieuencid, felly dim ond un neu ddau o bobl a gymerodd i achosi cynnydd. Roedd un person ifanc wedi cyflawni naw trosedd lefel isel cyn y gallent hyd yn oed ddechrau gweithio gydag ef.

Clywodd yr aelodau fod y gwasanaeth wedi cyflogi therapydd lleferydd ac iaith llawn amser yn ddiweddar, i gydnabod pwysigrwydd anghenion cyfathrebu. Roeddent yn sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi i arsylwi anghenion pobl ifanc ac i ymateb iddynt.

Rhodddwyd gwybod i'r aelodau sut yr oedd dangosyddion perfformiad allweddol y gwasanaeth yn helpu i fwrw ei dargedau, gan gynnwys mynd i'r afael ag anghymesuredd ac amrywiaeth. Gosodwyd y dangosyddion perfformiad allweddol gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, ac roedd y rhai newydd yn ystyried gwaithartneriaid yn fwy nag o'r blaen.

Clywodd yr aelodau am y ffocws ar weithio mewn partneriaeth ar draws y sefydliad, yn enwedig rhwng addysg a gwasanaethau plant drwy'r model ardaloedd lleol. Roedd perthnasau'n gwella, ond un o'r heriau allweddol oedd cymhlethdod materion sy'n wynebu pobl ifanc, a helpu ysgolion i ddeall cylch gwaith gwasanaethau plant. Roedd yn allweddol cyrraedd plant nad oeddent wedi mynd yn ôl i'r ysgol ar ôl y pandemig, ac roedd gweithio cydgysylltiedig yn helpu gyda hyn.

Trafododd yr aelodau effaith gwahardd parhaol ar ddyfodol person ifanc, a'r gwaith a wnaed i atal hyn rhag digwydd. Roedd angen iddynt fod yn sicr bod pob mesur posib wedi'i roi ar waith cyn troi at wahardd.

**PENDERFYNWYD:** Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor yn mynegi eu sylwadau a'u harsylwadau a gasglwyd yn ystod y ffordd ymlaen.

Cafodd yr aelodau drosolwg o waith Consortïwm Canolbarth y De (CCD) a ddiweddiariad ar gyfraniad CCD mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol (ALI) i godi safonau mewn ysgolion ledled Caerdydd.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg), Melanie Godfrey (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes), Mike Tate (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Addysg a Dysgu Gydol Oes), Suzanne Scarlett (Rheolwr Gweithrediadau, Partneriaethau a Pherfformiad), Clara Seery (Rheolwr Gyfarwyddwr Consortïwm Addysg Canolbarth y De/CCD), Kathryn Lewis (Prif Bartner Gwella CCD ar gyfer Cydlyniant ac Asesu'r Cwricwlwm), Geraint Lewis (Prif Bartner Gwella CCD ar gyfer Ysgolion Uwchradd ac Arbennig Caerdydd), Kate Rowlands (Prif Bartner Gwella CCD ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Arbennig Caerdydd), Gareth Evans (Dirprwy Bennaeth, Ysgol Gynradd Gymraeg Treganna) a Rhys Corcoran (Pennaeth Cynorthwyol, Ysgol Uwchradd Mair Ddihalog).

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau y byddai'r sesiwn yn cael ei hystyried mewn tair rhan: Adroddiad Blynyddol 2021/22 CCD, y Dull Cyffredin o Gefnogi'r Cwricwlwm ac Adroddiad Cwricwlwm i Gymru CCD.

Gwahoddwyd Melanie Godfrey i wneud datganiad, lle croesawodd waith craffu'r pwyllgor ar Gonsortïwm Canolbarth y De. Rhoddodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am gwmpas a natur ei waith ac amlinellodd y gwaith sylweddol a oedd ar y gweill i wella safonau mewn ysgolion. Byddai'r cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno mewn ysgolion uwchradd o fis Medi 2023.

Cyn trafod Adroddiad Blynyddol 2021/22 CCD, gwahoddwyd Clara Seery i wneud datganiad, lle tynnodd sylw at newidiadau yn y ffordd yr oedd data yn cael ei gasglu ers cyn y pandemig. Yn ystod 2021-22, derbyniodd 8 ysgol yng Nghaerdydd well cymorth monitro, gyda 3 o'r rhain yn symud yn ôl i gymorth craidd yn nhymor yr hydref a'r gwanwyn. Cafodd ysgolion a oedd yn peri pryder lawer o gymorth fel y gallent wneud cynnydd da ar eu hargymhellion. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys astudiaethau achos o sut roedd ysgolion Caerdydd wedi ymgysylltu â'r cymorth.

Gwahoddwyd yr aelodau i ofyn cwestiynau ac i wneud sylwadau; mae'r drafodaeth wedi'i chrynhof fel a ganlyn:

Gofynnodd yr aelodau pa mor barod oedd ysgolion Caerdydd yn gyffredinol i fwrw ymlaen â'r cwricwlwm newydd yn ôl amserlen Llywodraeth Cymru. Roedd y swyddogion yn hyderus y byddai ysgolion yn y lle iawn erbyn mis Medi. Roedd pob ysgol mewn lle gwahanol ar y daith honno, gydag ysgolion cynradd yn naturiol ymhellach ymlaen, ond roedd pob ysgol yn ymwybodol o'r hyn yr oedd angen ei wneud i gydymffurfio.

Trafododd yr aelodau sut i ddefnyddio data, gwerthuso a chudd-wybodaeth yn effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth a rennir i gefnogi'r gwaith o ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm. Roedd y cwricwlwm newydd yn her fawr i ysgolion, a oedd yn gorfod gweithio gyda'i gilydd ac adeiladu ar ddysgu blaenorol i ddatblygu dealltwriaeth a rennir.

Nododd yr Aelodau bwysigrwydd yr ecosystem gymdeithasol, gyllid a data ehangach, a'r heriau i CCD wrth roi sicrwydd i'r pum awdurdod lleol ar gynnydd yn absenoldeb data cydgasgledig ar lefel disgyblion. Roedd partneriaid recriwtio yn gweithio mewn ysgolion ac yn herio eu prosesau monitro a gwerthuso, gan gasglu tystiolaeth uniongyrchol ochr yn ochr ag arweinwyr ysgolion a helpu i osod y blaenoriaethau cywir.

Cododd yr aelodau berthynas CCD ac ysgolion ag Estyn, gan nodi efallai na fydd arolygwyr yn deall y cwricwlwm newydd yn llawn eto. Cydnabu'r swyddogion nad oedd yn system berffaith, a bod problemau gyda chysondeb dealltwriaeth ar draws Estyn a oedd yn debygol o barhau'n her dros y flwyddyn i ddod. Fodd bynnag, roeddent yn gallu trafod y materion hyn yn rheolaidd gydag Uwch Dîm Arwain Estyn, ac yn ceisio galluogi ysgolion i fynegi eu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm ac ymateb i'r awgrymiadau a gyflwynwyd iddynt.

Gofynnodd yr aelodau am amlder arolygiadau ac am yr oedi cyn eu hailddechrau ar ôl i gyfyngiadau Covid gael eu codi. Nododd y swyddogion mai penderfyniad Estyn oedd hyn, ond eu bod wedi rhoi amser i ysgolion fod mewn sefyllfa i ymateb i arolygiadau. Bu llawer mwy o arolygiadau y flwyddyn galendr hon, a 27 (21% o'r holl ysgolion yng Nghaerdydd) ers eu hailddechrau. Dylid arolygu pob ysgol bob 7 mlynedd, ond roedd rhai wedi aros mwy na 10.

Clywodd yr aelodau am y gwahanol resymau dros sgoriau cyrhaeddiad cynyddol, a nodon nhw nad oedd asesiadau yn ystod dwy flynedd y pandemig yn debyg gan nad oedd y myfyrwyr yn gwneud profion yn yr un modd. Roedd y myfyrwyr wedi delio ag addysg aflonydd iawn ac roedd yn bwysig osgoi awgrymu nad oedd eu canlyniadau yn ystod y ddwy flynedd honno yn ddilys. Efallai y bydd angen ailystyried sut y dehonglir data asesu yng ngoleuni hyn.

Nododd yr aelodau fod y Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei gyfrifo yn ôl nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, y byddai pob un ohonynt yn ei dderbyn dan bolisi prydau ysgol am ddim Llywodraeth Cymru. Eglurodd y swyddogion y byddai'r grant hwn yn dal i gael ei ddyrannu ar sail cymhwysedd, yn seiliedig ar rieni'n dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf. Byddai'r CCD yn parhau i weithio gydag ysgolion i sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o hyn.

Cyn trafod y Dull Cyffredin o Gefnogi'r Cwricwlwm, gwahoddwyd Kathryn Lewis i wneud datganiad, lle nododd fod un uned cyfeirio disgyblion a deg ysgol uwchradd wedi dewis ei gyflwyno eleni, tua thraean o'r ysgolion yw hyn. Nod ei huned oedd cynnig cefnogaeth â ffocws a chynnig llwyfan i dîm addewid Caerdydd ddod i mewn a chyfoethogi cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu, gan ehangu llwybrau i bobl ifanc.

Gwahoddwyd Suzanne Scarlett i wneud datganiad, lle gwnaeth drafod pwyntiau allweddol addewid Caerdydd a sut y gwnaeth tîm y cwricwlwm eu rhoi ar waith.

Rhoddodd Gareth Evans a Rhys Corcoran gyflwyniadau ac ymatebon nhw i bwyntiau o eglurhad gan yr aelodau.

Cyn trafod Adroddiad Cwricwlwm i Gymru CCD, gwahoddwyd Kathryn Lewis i wneud datganiad.

Gwahoddwyd yr aelodau i ofyn cwestiynau ac i wneud sylwadau; mae'r drafodaeth wedi'i chrynhof fel a ganlyn:

Clywodd yr aelodau sut roedd ysgolion a CCD yn cefnogi plant a oedd yn cael trafferth gyda'r cwricwlwm newydd ac o ran sgiliau cymdeithasol oherwydd effeithiau'r pandemig. Roedd y Cwricwlwm i Gymru yn ymwneud â sicrhau ehangder yn y cwricwlwm drwy chwe haen o brofiad dysgu, llenwi bylchau a sicrhau bod popeth yn cael ei ystyried.

Nododd yr aelodau y gostyngiad yn y ffigurau presenoldeb a'r mesurau a gymerwyd i fynd i'r afael â hyn. Roedd angen i'r cwricwlwm fod yn hygyrch i bob disgybl er mwyn annog presenoldeb, tra bod swyddogion lles addysgol yr awdurdod lleol yn rhoi cymorth i annog dysgwyr i fynd yn ôl i'r ysgol.

**PENDERFYNWYD:** Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor yn mynegi eu sylwadau a'u harsylwadau a gasglwyd yn ystod y ffordd ymlaen.

#### 58 : ADRODDIAD Y GRŴP GORCHWYL A GORFFEN CYNLLUNIO TREFNIADAETH YSGOLION (CTY)

Cafodd yr aelodau ddiweddariad ar drafodaethau rhwng y Grŵp Gorchwyl a Gorffen CTY a'r Tîm CTY yn y cyfarfod ar 14 Mawrth 2023 mewn perthynas â'r Trefniadau Derbyn i Ysgolion a Threfniadau Derbyn i Ysgolion Uwchradd Cydgysylltiedig 2024/2025 a'r Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion: Lleoedd mewn Ysgolion Cynradd i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd. Bydd y cynigion yn cael eu hystyried gan y Cabinet ar 23 Mawrth 2023.

**CYTUNWYD:** nodi'r sylwadau a'r arsylwadau a wnaed gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen sydd i'w gweld yn yr adroddiad; a bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn cyflwyno'r sylwadau a'r arsylwadau hynny fel llythyr at yr Aelod Cabinet cyn cyfarfod y Cabinet ar 23 Mawrth 2023.

#### 59 : ADRODDIAD BUSNES Y PWYLLGOR

Gofynnwyd am gymeradwyaeth yr aelodau mewn perthynas â'r tudalennau Craffu Plant a Phobl Ifanc arfaethedig i'w cynnwys yn Adroddiad Blynyddol Craffu 2022 – 2023.

Gwahoddwyd yr aelodau hefyd i ddatgan diddordeb mewn eistedd ar Grŵp Gorchwyl a Gorffen Craffu ar y Cyd y Cynllun Datblygu Newydd.

**CYTUNWYD:** Cymeradwyo tudalennau drafft y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc drafft o Adroddiad Blynyddol Craffu 2022 – 2023.

#### 60 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Ni chyflwynwyd unrhyw eitemau bryd.

#### 61 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Mae dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor wedi'i newid, bydd ar ddydd Llun 15 Mai 2023 am 5.00 pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.30 pm